# Strategaeth Gyfranogi Plant a Phobl Ifanc

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

# Cynnwys

## Strategaeth Gyfranogi Plant a Phobl Ifanc: Sut i gael llais a chlust yn Wrecsam


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Rheoli Dogfen | 5 |
| 2. | Crynodeb Gweithredol | 6 |
| 3. | Egwyddorion Allweddol | 7 |
| 4. | Gofynion o ran Deddfwriaeth a Pholisi | 8 |
| 5. | Gweledigaeth y Strategaeth | 12 |
| 6. | Nodau ac Amcanion | 13 |
| 7. | Monitro Llwyddiant y Strategaeth | 15 |
| 8. | Adolygiad Strategaeth | 15 |
| | Atodiad | 16 |


## Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant


| | | |
|---|---|---|
| 9. | Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant | 24 |
| 10. | Pam Fod Asesiadau O'r Effaith ar Blant Yn Angenrheidiol? | 24 |
| 11. | Ar Ba Gam O'r Broses Dylai Asesiad Gael Ei Wneud? | 25 |
| 12. | Diffinio 'Plant a Phobl Ifanc' | 25 |
| 13. | Buddiannau Cystadleuol | 26 |
| 14. | Effeithiau Negyddol/Niweidiol | 26 |
| 15. | Hyrwyddo hawliau plant | 27 |
| 16. | Asesiad Sgrinio Cychwynnol | 28 |
| 17. | Asesiad o'r Effaith Llawn | 29 |
| | Atodiad 1 | 32 |
| | Atodiad 2 | 37 |




WCBC/ER639/18072023

Proses y Siarter Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol a'r Nod Barcud

18. Proses y Siarter Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol a'r Nod Barcud 40

Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc

19. Siarter 42

Safonau Cyfranogiad

20. Ffurflen Hunan-asesu'r Safonau Cyfranogiad 44

# Strategaeth Gyfranogi Plant a Phobl Ifanc: Sut i gael llais a chlust yn Wrecsam

## 1. Rheoli Dogfen

**Y math o ddogfen:** Strategaeth

**Perchennog:** Y Bwrdd Gweithredol a'r Uwch Dîm Arwain

**Y broses gymeradwyo/corff cymeradwyo:** Y Bwrdd Gweithredol a'r Uwch Dîm Arwain

**Ymgynghoriad:**

- Cynrychiolwyr o'r Cyngor Gofal Pobl Ifanc a Senedd yr Ifanc
- Dynamic - Canolfan ar gyfer Plant a Phobl Ifanc gydag Anableddau
- Lee Tiratira - Arweinydd Tîm Ieuenctid Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid, Prosiect Plant a Phobl Ifanc Du a Chefndir Ethnig Lleiafrifol
- Elaine Smith - Swyddog Perfformiad, Gwelliant a Phartneriaethau, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Tricia Jones - Gweithiwr Cefnogi Ieuenctid, Gwasanaeth Ieuenctid, Gwasanaethau Addysg ac Ymyrraeth Gynnar
- Donna Dickenson - Pennaeth y Gwasanaeth Atal a Chefnogaeth, Gwasanaethau Addysg ac Ymyrraeth Gynnar
- Rhian Thomas - Uwch Bennaeth Gwasanaeth, Gwasanaethau Plant
- Ian Wakefield - Rheolwr Tîm - Plant sy'n Derbyn Gofal a'r Rhai sy'n Gadael Gofal
- Jane Jones - Swyddog Ymgysylltu, Tîm Diogelu a Sicrhau Ansawdd, Gwasanaethau Plant
- Lisa Huxley - Swyddog Cyfathrebu ac Ansawdd, Tîm Diogelu a Sicrhau Ansawdd, Gwasanaethau Plant
- Caroline Bennett, Cydlynydd Cyfranogiad- Gwasanaeth Ieuenctid, Gwasanaethau Addysg ac Ymyrraeth Gynnar
- Alwyn Jones - Prif Swyddog, Gofal Cymdeithasol

**Dyddiad Cymeradwyo:** 08/03/2022

**Trefniadau'r Adolygiad:** 3 blynedd

**Dyddiad yr adolygiad nesaf:** 2025

**Fersiwn 1.0**

**Dyddiad:** 08/03/2022

**Disgrifiad Byr o'r Newidiadau:** Strategaeth Newydd

## 2. Crynodeb Gweithredol

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam weledigaeth glir o ran cyfranogiad gyda phlant a phobl ifanc: sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn Wrecsam yn cael eu cefnogi a'u grymuso i fynegi eu barn o'u gwirfodd mewn ffordd ystyrlon sy'n dal gweithwyr proffesiynol i gyfrif ar faterion sy'n effeithio ar eu bywydau, yn unol â hawliau plant a phobl ifanc.

Mae'r strategaeth hon yn nodi sut mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn gwreiddio ei ymrwymiad i gyfranogiad gyda phlant a phobl ifanc ym mhrosesau gwneud penderfyniadau sefydliadau Statudol a Thrydydd Sector drwy ymgynghoriad, ymgysylltiad ac arsylwi proffesiynol.

Mae'r strategaeth yn ymwneud yn bennaf â sut mae plant a phobl ifanc yn rhan o'r broses gwneud penderfyniadau a bydd gwaith drwy'r strategaeth hon yn helpu'r cyfranogiad i fynd i'r afael â holl agweddau cynllunio, darparu ac adolygu gwasanaethau o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Mae'r strategaeth wedi'i gosod o fewn cyd-destun Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Plant a Phobl Ifanc - Plant yng Nghymru yn ogystal â Chynllun y Cyngor 2020-23 Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Strategaeth Gyfranogi Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Y 5 nod canlynol yw'r canlyniadau allweddol mae'r strategaeth yn ceisio eu cyflawni:

- Parchu a hyrwyddo hawliau plant
- Parchu a gwerthfawrogi amrywiaeth
- Gwrando ac ymateb i farn a dymuniadau plant
- Bod â dyheadau uchel ar gyfer plant a phobl ifanc
- Dathlu cyflawniadau plant

Caiff nodau'r strategaeth eu cyflawni trwy ddatblygu cynlluniau gweithredu ar gyfer adrannau/meysydd gwasanaeth. Caiff llwyddiant y strategaeth ei fesur yn ôl nifer yr adrannau sy'n cyfrannu at y Nod Barcud Cyfranogiad Cenedlaethol.

## 3. Egwyddorion Allweddol

Mae'r strategaeth hon yn nodi sut mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn gwreiddio ei ymrwymiad i gyfranogiad gyda phlant a phobl ifanc ym mhrosesau gwneud penderfyniadau sefydliadau Statudol a Thrydydd Sector drwy ymgynghoriad, ymgysylltiad ac arsylwi proffesiynol.

Mae'r strategaeth yn ymwneud yn bennaf â sut mae plant a phobl ifanc yn rhan o'r broses gwneud penderfyniadau a bydd gwaith drwy'r strategaeth hon yn helpu cyfrangogiad i fynd i'r afael â holl agweddau cynllunio, darparu ac adolygu gwasanaethau o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Mae'r strategaeth hon yn cynnwys pob plentyn a pherson ifanc hyd at 25 oed.

Dylid datblygu cynlluniau gweithredu cyfranogi sy'n benodol i adrannau'r Cyngor, yn unol â nodau'r strategaeth hon.

### Beth yw ystyr Cyfranogi?

Mae Canllaw Arfer Da Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru 2016 yn dweud mai diffiniad llythrennol cyfranogi yw 'cymryd rhan.' Yng nghyd-destun hawliau plant a phobl ifanc, fodd bynnag, mae cyfranogi'n ymwneud â rhoi llais i blant a phobl ifanc mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau nhw a rhoi cyfle iddyn nhw fod yn rhan bendant o'r broses o wneud y penderfyniadau hynny.

Mae cyfranogi yn broses sy'n sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn rhan o'r penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, y gymuned a'r gymdeithas y maen nhw'n byw ynddi.

Mae cyfranogi yn rhan hanfodol o roi grym i bobl ifanc fod yn ddinasyddion mwy gweithredol a chyfrifol. Mae ymgysylltu â phrosesau democrataidd ac amrywiaeth o faterion dinasyddiaeth, yn lleol ac yn fyd-eang, yn helpu plant a phobl ifanc i ddatblygu hyder a sgiliau i ddysgu, byw a gweithio.

## 4. Gofynion o ran Deddfwriaeth a Pholisi

Cyfranogiad yw un o egwyddorion arweiniol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae Erthygl 12 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn nodi hawl plant a phobl ifanc i fynegi barn a sicrhau bod eu barn yn cael ei hystyried pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud am unrhyw fater sy'n effeithio arnyn nhw. Credir bod yr Erthygl hon yn arbennig o bwysig, gan ei bod yn hawl sy'n galluogi, yn grymuso ac yn cynorthwyo plant a phobl ifanc i fynnu hawliau ehangach dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, yng nghyd-destun y teulu, yr ysgol a'r gymuned ehangach. Mae'r egwyddor yn cadarnhau bod plant yn ddinasyddion gweithredol, sydd â rhywbeth pwysig i'w gyfrannu i'w teuluoedd, eu hysgolion, eu cymunedau a'u cenedl. Mae ganddyn nhw hawl i fynegi eu barn am bob mater sy'n effeithio arnyn nhw a sicrhau bod eu barn yn cael ei chlywed ac bod yn cael sylw dyledus yn unol ag oedran ac aeddfedrwydd y plentyn. Mae'n cydnabod y gall plant gyfoethogi'r broses o wneud penderfyniadau, gan rannu safbwyntiau a chyfranogi fel dinasyddion a hwyluswyr newid.

### Beth mae hawliau yn ei olygu?

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn gytundeb rhyngwladol sy'n gwarchod hawliau dynol plant dan 18 oed. Caiff hawliau plant yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn eu rhannu'n dri grŵp fel arfer, sef: Darpariaeth, Diogelu a Chyfranogi.

**Darpariaeth** - Dyma'r hawliau i wasanaethau, sgiliau ac adnoddau: y 'mewnbynnau' sy'n angenrheidiol i sicrhau bod plant yn goroesi ac yn datblygu i'w llawn botensial, er enghraifft: darpariaeth ddigonol o ran tai, bwyd, addysg, chwarae, celfyddydau a hamdden.

**Diogelu** - Dyma'r hawliau sy'n sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn rhag gweithredoedd o gam-fanteisio neu gamdriniaeth, yn bennaf gan oedolion neu sefydliadau, sy'n bygwth eu hurddas, eu goroesiad neu eu datblygiad. Er enghraifft, pan fo plant yn destun camfanteisio sy'n eu gorfodi i droseddu (dwyn o bocedi, dwyn o siopau, masnachu neu dyfu cyffuriau), bydd y plant hyn yn cael cynnig amddiffyniad gan yr Heddlu a Gwasanaethau Plant Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Ni all plant roi caniatâd gwybodus i gymryd rhan mewn gweithgarwch troseddol neu weithgarwch arall sy'n camfanteisio.

**Cyfranogi** - Dyma'r hawliau sy'n rhoi'r modd i blant ymgysylltu yn y prosesau hynny o newid a fydd yn sicrhau bod eu hawliau yn cael eu gwireddu, a'u paratoi i gymryd rhan ymarferol mewn cymdeithas. Dylai plant gael cyfleoedd gwirioneddol i ddylanwadu ar benderfyniadau'n ymwneud â'u bywydau. Er enghraifft, dylid gofyn i blant am eu barn am unrhyw newidiadau posibl i'w trefniadau o ran tai (e.e. lle darperir llety gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

Cymru yw'r wlad gyntaf yn y Deyrnas Unedig i ymgorffori egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn mewn deddfwriaeth.

Mae 'Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru)', a ddaeth i rym ym mis Mai 2012, yn cryfhau ac yn adeiladu ar ddull Llywodraeth Cymru o weithredu ar sail hawliau, drwy roi dyletswydd ar Ysgrifenyddion Cabinet a Gweinidogion Llywodraeth Cymru i roi'r sylw priodol i'r hawliau a'r rhwymedigaethau a nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn fel sylfaen ei holl waith yn ymwneud â phlant a phobl ifanc Cymru ac mae wedi crynhoi erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn y Saith Amcan Craidd i blant a phobl ifanc. Mae Amcan Craidd 5 yn nodi bod rhaid gwrando ar farn pob plentyn a pherson ifanc, eu trin â pharch, a chydnabod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol. Mae nifer o ddarpariaethau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn adlewyrchu hawl plant i gyfranogi:

**Mabwysiadu** - fel un o'r "bobl dan sylw," dylai llais y plentyn gael ei glywed mewn unrhyw achos cyfreithiol neu weinyddol yn ymwneud â mabwysiadu. Mae Erthygl 21(a) yn cyfeirio at gydsyniad gwybodus y bobl dan sylw, gan gynnwys y plentyn.

**Gwahanu plentyn oddi wrth ei rieni** - mewn penderfyniadau ynghylch yr angen i wahanu plentyn oddi wrth ei rieni (er enghraifft, oherwydd ei fod yn cael ei gam-drin neu ei esgeuluso) - rhaid rhoi cyfle i'r plentyn, fel person y bydd y penderfyniad yn effeithio arno, gyfranogi a mynegi ei safbwynt.

**Newid enw** - wrth benderfynu newid enw plentyn, rhaid ystyried barn y plentyn dan sylw.

**Hawl i iechyd** - mae gan blant hawl i gael eu hysbysu, cael gafael ar wybodaeth a chael cymorth i ddefnyddio gwybodaeth sylfaenol am iechyd a maeth plant (Erthygl 24(2)e) er mwyn mwynhau eu hawl i iechyd.

**Addysg** - mae dimensiwn arbennig yn perthyn i gyfranogiad plant ym maes addysg. Dylai addysg roi cyfle i blant feithrin eu doniau a'u gallu'n llawn. Mae nifer o erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn arbennig o berthnasol i leoliadau addysgol.

**Gwybodaeth** - Mae Erthyglau 13 ac 17 yn nodi hawl plant a phobl ifanc i gael gafael ar wybodaeth ddibynadwy a'i rhannu.

I weld rhestr lawn o Erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, gan gynnwys fersiynau hygyrch, ewch i complantcymru.org.uk

Mae Llywodraeth Cymru am i bob plentyn a pherson ifanc gael cyfleoedd i gyfranogi yn y broses o wneud penderfyniadau a hynny'n lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol yng Nghymru.

## Y Cyd-destun Cenedlaethol

O dan Adran 12 o Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau statudol i Awdurdodau Lleol ar annog a galluogi plant a phobl ifanc i gyfranogi mewn penderfyniadau a allai effeithio arnyn nhw. Yn 2015, cafodd y canllawiau hyn eu diweddaru i ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Ddeddf yn rhoi cyfraniad effeithiol pobl a chymunedau wrth wraidd y broses o wella llesiant, ac mae hefyd yn un o'r pum ffordd o weithio a nodir yn y Ddeddf. Yn fwy diweddar, mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau annog pobl leol i gyfranogi mewn Llywodraeth Leol.

Mae Llywodraeth Cymru yn glir bod disgwyl i'r canllawiau statudol gael eu gweithredu drwy Gymru a bod rhaid i gyfranogiad plant a phobl ifanc mewn penderfyniadau fod yn rhan annatod o wasanaethau prif ffrwd. Ers 2014, mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi ymweld yn rheolaidd â phob Awdurdod Lleol i gael 'darlun o gyfranogiad' drwy ddeall sut y mae'r ddyletswydd hon yn cael ei rhoi ar waith yn lleol.

## Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc

Caiff Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc - Plant yng Nghymru ei ariannu gan Lywodraeth Cymru i fod yn ganolfan ragoriaeth ar gyfer hawliau plant. Mae'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol yn cynnig arweiniad ar y ffyrdd gorau a mwyaf ystyrlon o wrando ar leisiau plant a phobl ifanc, ac o ymateb iddyn nhw, yn unol ag Erthygl 12 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae'r Safonau'n nodi sut y gall plant a phobl ifanc gyfrannu at benderfyniadau mewn ffyrdd ystyrlon ac effeithiol.

Mae'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol yn cefnogi gwasanaethau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc i fonitro effeithiolrwydd datblygu cyfranogiad ieuenctid yn eu sefydliadau. Mae hyn yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cymryd rhan yn y broses o ddylunio, darparu a gwerthuso gwasanaethau.

Dan y Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol, mae Nod Barcud Cyfranogiad Cenedlaethol, sydd wedi'i ardystio gan Lywodraeth Cymru. Caiff pob sefydliad eu hannog i fynd am y Siarter yna gweithio tuag at ennill achrediad y Nod Barcud Cyfranogiad Cenedlaethol llawn trwy broses hunanasesu ac arolygu. Bydd gwasanaethau sydd wedi dangos eu bod yn cyflawni yn erbyn pob un o'r saith Safon Genedlaethol yn derbyn tystysgrif (a fydd yn ddilys am 4 blynedd). Fe enillodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam y Siarter ym mis Mawrth 2024 ac mae'n gweithio gyda Phlant yng Nghymru er mwyn ennill achrediad ar gyfer y Nod Barcud Cyfranogiad Cenedlaethol llawn newydd (gweler yr atodiad i gael rhagor o wybodaeth).

**Y Fframwaith Cyfreithiol:**

- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn)
- Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011
- Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc
- Y Ffordd Gywir - Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021
- Strategaeth Gyfranogi'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid - PDF ar gael dros ebost
- Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant Wrecsam

## Cyd-destun Lleol

Mae'r strategaeth hefyd yn cydweddu â'r Amcan Lles a'r Flaenoriaeth Wella 'Sicrhau Cyngor sy'n Fodern ac yn Gydnerth' o Gynllun y Cyngor 2020-2023, sy'n nodi ymrwymiad y Cyngor i gynnwys pobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau i'n helpu i wneud penderfyniadau da am ein gwasanaethau, Mae hefyd yn nodi sut y byddwn yn ceisio gwella amrywiaeth mewn democratiaeth leol fel bod cyfleoedd i grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli chwarae rôl lawn wrth gefnogi a chynrychioli eu cymunedau.

Mae'r strategaeth yn datblygu egwyddorion allweddol Strategaeth Gyfranogi Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam hefyd sy'n nodi'r disgwyliad fod gan bawb y wybodaeth y maen nhw ei hangen i ddylanwadu ar waith cynllunio a darparu gwasanaethau, eu bod yn rhan o ymgysylltu ac ymgynghori ar benderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, a lle bo'n bosibl, ein bod yn cydweithio i ddylunio a darparu gwasanaethau (cydgynhyrchu).

Mae'r diagram isod yn darparu trosolwg o'r cyd-destun lleol ar gyfer cyfranogiad yn Wrecsam. I gael rhagor o wybodaeth am bob un o'r gwasanaethau a nodir isod, gweler Atodiad 1.

**Gwasanaethau Cyfranogiad Wrecsam**

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Cyngor Gofal Pobl Ifanc
- Eiriolaeth Ail Lais
- Tîm Datblygu Chwarae
- Gwasanaeth Ieuenctid Wrecsam
- Siop Wybodaeth
- Ysgolion Iach
- Cyfranogi a Senedd yr Ifanc
- Y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid
- Sefydliadau Trydydd Sector

## 5. Gweledigaeth y Strategaeth

Sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn Wrecsam yn cael eu cefnogi a'u grymuso i fynegi eu barn o'u gwirfodd mewn ffordd ystyrlon sy'n dal gweithwyr proffesiynol i gyfrif ar faterion sy'n effeithio ar eu bywydau, yn unol â hawliau plant a phobl ifanc.

## 6. Nodau ac Amcanion

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi nodi nifer o ganlyniadau y mae'n dymuno eu cyflawni, gyda'r nod trosfwaol o wrando ar blant a phobl ifanc a chymryd eu barn o ddifrif. Mae'r nodau canlynol wedi'u datblygu yn unol ag Egwyddor 4 Y Ffordd Gywir - Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant:

### Nod 1 - Parchu a hyrwyddo hawliau plant

Dylai hawliau dynol rymuso plant. Mae grymuso'n golygu dileu rhwystrau i hawl plant i gael gwybodaeth neu adnoddau sy'n eu galluogi i ddeall ac arfer eu hawliau. Dylai plant allu cael gafael ar adnoddau i'w galluogi i ddefnyddio hawliau yn eu bywydau bob dydd. Mae'r egwyddor hon yr un mor berthnasol i blant iau a dylid ei hystyried fel cyfraniad pwysig i ddatblygiad y plentyn (a gaiff ei warantu gan Erthygl 6 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn). Gallai fod yn arbennig o berthnasol i blant sy'n aelodau o grwpiau cymdeithasol sydd wedi'u heithrio, sydd ar y cyrion neu sydd dan anfantais.

- Helpu plant a phobl ifanc i ddeall eu hawliau a sut y gellir eu grymuso i wneud penderfyniad cytbwys
- Darparu gwybodaeth sy'n hawdd ei deall, o ansawdd dda sy'n glir ac yn hygyrch.

### Nod 2 - Parchu a Gwerthfawrogi Amrywiaeth

Darparu ystod o gyfleoedd a chefnogaeth i ddiwallu anghenion pob plentyn a pherson ifanc (a gaiff ei warantu gan Erthygl 23 a 30 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn).

- Gallai hyn gynnwys cyfleoedd i ddileu rhwystrau iaith/cyfathrebu neu heriau cael gafael ar ddarpariaeth ar gyfer grwpiau cymdeithasol sydd wedi'u heithrio, sydd ar y cyrion neu sydd dan anfantais, Gellir gwneud hyn drwy sicrhau bod darpariaeth yn ddiwylliannol briodol, bod gwybodaeth yn glir a hygyrch a bod cynrychiolaeth yn y gweithlu.
- Datblygu targedau clir i wrando ar bobl ifanc o grwpiau sydd ar y cyrion. Gallai hyn gynnwys sicrhau bod asesiadau o'r effaith ar hawliau plant yn cael eu cwblhau ar gyfer pob polisi a phrosiect allweddol a bod gwaith allgymorth rheolaidd yn cael ei wneud i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc o grwpiau cymdeithasol sydd wedi'u heithrio, sydd ar y cyrion neu sydd dan anfantais.
- Darparu hyfforddiant i staff ar hawliau plant, cydraddoldeb ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol.
- Cynyddu ymgysylltiad gan fudd-ddeiliaid o grwpiau cymdeithasol sydd wedi'u heithrio, sydd ar y cyrion neu sydd dan anfantais fel bod cynrychiolaeth ehangach i fynd i'r afael â materion allweddol fel cynrychiolaeth anghyfrannol, gwahaniaethu a thangynrychiolaeth.

### Nod 3 - Gwrando ac ymateb i farn a dymuniadau plant

Helpu plant a phobl ifanc i fynegi eu barn yn rhwydd a chymryd eu sylwadau o ddifrif wrth wneud penderfyniadau neu gymryd camau sy'n effeithio ar eu bywydau yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol (a gaiff ei warantu gan Erthygl 12 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn).

- Sicrhau bod Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant yn cael eu cynnal ar gyfer pob prosiect/polisi allweddol i asesu'r effaith ar blant a phobl ifanc a'u hawliau. Gweler Atodiad
- Cynnwys plant a phobl ifanc yn uniongyrchol yn y broses o ddylunio, monitro a gwerthuso'r gwasanaethau maen nhw'n eu defnyddio
- Gwrando ar blant a phobl ifanc, gwerthfawrogi a chymryd eu barn o ddifrif, defnyddio'r wybodaeth maen nhw'n ei rhoi i chi i ganfod bylchau a chyfleoedd
- Blaenoriaethu cyfranogiad plant trwy gydol y cylch comisiynu
- Cynnwys plant a phobl ifanc wrth recriwtio staff sydd â chyfrifoldebau sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc
- Sicrhau bod adnoddau'n cael eu nodi mewn cyllidebau i gefnogi cyfranogiad
- Mabwysiadu'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol a gwneud cais am y Nod Barcud

### Nod 4 - Bod â dyheadau uchel ar gyfer plant a phobl ifanc

Mae gan blant a phobl ifanc hawl i ddysgu a dylai eu haddysg eu helpu i fod ar eu gorau (a gaiff ei warantu gan Erthygl 29 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn)

- Hyrwyddo ac annog cyflawniad addysgol a darparu amrywiaeth eang o brofiadau i blant a phobl ifanc i wella eu datblygiad personol
- Gweithio gyda phlant a phobl ifanc mewn ffyrdd diogel, hwyliog a llawn mwynhad
- Manteisio ar yr hyn mae plant a phobl ifanc yn ei wybod a gwneud pethau sy'n meithrin eu hyder a'u sgiliau

### Nod 5 - Dathlu cyflawniadau plant

Cydnabod a pharchu'r cyfraniad mawr y mae plant a phobl ifanc yn ei wneud i Wrecsam a sicrhau ein bod yn mynegi ein balchder bob cyfle posibl.

## 7. Monitro Llwyddiant y Strategaeth

Er mwyn cyflawni nodau'r strategaeth hon, bydd disgwyl i bob adran yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam weithio tuag at gynllun gweithredu, a fydd yn pennu camau gweithredu allweddol i gyflawni nodau'r strategaeth. Gweler Atodiad 2 i gael amlinelliad o'r cynllun gweithredu.

Caiff llwyddiant y strategaeth ei fonitro trwy'r Nod Barcud Cyfranogiad Cenedlaethol. Bydd gofyn cyflwyno'r cynlluniau gweithredu adrannol fel rhan o'r portffolio tystiolaeth ar gyfer y Nod Barcud Cyfranogiad Cenedlaethol.

## 8. Adolygiad o'r Strategaeth

Bydd y strategaeth hon yn rhedeg rhwng 2022 a 2025.

## Atodiad

### Atodiad 1 - Gwasanaethau Cyfranogiad Wrecsam

**Gwasanaeth Ieuenctid Wrecsam**

Canolfan Fictoria, 13 Stryt yr Allt, Wrecsam, LL11 1SN

Ebost: youthservice@wrexham.gov.uk

Ffôn: 01978 298371

Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn cefnogi pobl ifanc rhwng 11 a 25 oed, gan ddarparu gwasanaethau cyffredinol ac unigryw wedi'u targedu. Mae'r ddarpariaeth ledled y sir yn gweithio yn unol â Gwaith Ieuenctid yng Nghymru; Egwyddorion a Dibenion sy'n galluogi pobl ifanc i ddysgu, mynegi eu hunain, cyfranogi a chael llais yn y pethau sy'n bwysig iddyn nhw.

Mae ein Gwasanaethau Ieuenctid yn rhan hanfodol o'r Adran Addysg ac maen nhw'n cynnwys timau o dimau o weithwyr proffesiynol o amrywiaeth o ddisgyblaethau. Mae gweithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion yn fraint ac mae ein gwaith yn gosod plant, pobl ifanc a theuluoedd wrth wraidd ein cynllunio, gan sicrhau ein bod yn defnyddio ein hadnoddau yn effeithiol i wella bywydau trigolion Wrecsam. I blant a phobl ifanc, mae'n darparu cymorth yn yr ysgol a'r tu hwnt i giât yr ysgol, gan gynnig cyfleoedd o fewn y gymuned sy'n datblygu sgiliau cymdeithasol, hyder ac ymwybyddiaeth o'r byd ehangach. P'un ai yw hyn yn golygu ein timau prosiect penodol, ein timau yn yr ysgol neu ein timau gwaith ieuenctid cymunedol, maen nhw i gyd yn rhoi ymdeimlad o ryddid a sicrwydd i bobl ifanc, ac yn eu galluogi i gyfarfod, gwneud ffrindiau, mynegi eu hunain a chael profiadau newydd y tu hwnt i'r ysgol. Wrth wneud hyn, rydym yn helpu pobl ifanc drwy uchafbwyntiau ac isafbwyntiau'r glasoed ac yn cynyddu eu synnwyr o berthyn i'w cymunedau lleol. Dan fantell y Gwasanaeth Ieuenctid mae'r canlynol:

#### Cymunedol ac Adferol

- Gwaith Ieuenctid Cymunedol mewn Canolfannau
- Gwaith Ieuenctid datgysylltiedig
- Chwarae
- Cyfranogi
- Senedd yr Ifanc
- Gwobr Dug Caeredin
- Prosiect Gwirfoddoli Integredig Wrecsam
- Tîm Adferol
- Gwaith Ieuenctid mewn Addysg

**Iechyd a Lles**

- Y Siop Wybodaeth
- Clinig Iechyd Rhyw Cyswllt
- Gwasanaeth Eirioli Ail Lais
- Cwnsela Outside In
- Inspire
- In2change
- Ysgolion Iach a'r Tîm Cyn Ysgol
- ADTRAC
- TRAC
- Ymgysylltu a Datblygu
- Wrecsam Egnïol
- Gwasanaeth Atal Digartrefedd Ieuenctid Wrecsam

**Senedd yr Ifanc**

Canolfan Fictoria, 13 Stryt yr Allt, Wrecsam, LL11 1SN

Ebost: youngvoices@wrexham.gov.uk

Ffôn: 01978 298374

Senedd yr Ifanc Wrecsam yw Senedd Ieuenctid Wrecsam. Mae'r Senedd yn cynnwys pobl ifanc 11- 25 oed. Mae Senedd yr Ifanc yn gweithio i gasglu barn pobl ifanc ar faterion penodol sy'n effeithio ar bobl ifanc Wrecsam. Mae'r Senedd yn cyfarfod ar ddydd Llun olaf y mis. Mae cyfarfodydd y Senedd yn gyfarfodydd strwythurol gyda rhannau ffurfiol ac anffurfiol. Gall cyfarfodydd Senedd yr Ifanc hefyd gynnwys trafodaethau, gweithgorau sy'n ymdrin â penodol, hyfforddiant a llawer mwy. Mae Senedd yr Ifanc yn rhoi cyfle i bobl ifanc ddweud eu dweud a chael llais ar faterion sy'n effeithio arnyn nhw.

**Cyngor Gofal Pobl Ifanc Wrecsam**

Ebost: youngpeoplescarecouncil@wrexham.gov.uk

Ffôn: 01978 295372/07808 787777

Mae Cyngor Gofal Pobl Ifanc yn casglu safbwyntiau'r holl blant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal yn Wrecsam ac yn sicrhau bod rhywun yn gwrando ar y safbwyntiau hynny ac yn gweithredu arnyn nhw trwy weithio gyda staff yr Adran Atal a Gofal Cymdeithasol i gefnogi gwelliannau i fywydau plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal. Mae wyth o bobl ifanc rhwng 11-20 oed sydd o gefndiroedd gwahanol yn y system ofal yn ffurfio Cyngor Gofal Pobl Ifanc. Cynhelir cyfarfodydd bob mis.

### Tîm Datblygu Chwarae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Canolfan Ieuenctid Rhiwabon, Llwyn Stanley, Rhiwabon, LL14 6AH

Ebost: play@wrexham.gov.uk

Mae'r Tîm Datblygu Chwarae yn arwain gwaith Cyngor Wrecsam o ran Dyletswydd Cyfleoedd Chwarae Digonol Llywodraeth Cymru, sydd yn gofyn i bob awdurdod lleol weithio tuag at sicrhau digon o amser a lle ar gyfer chwarae plant. Rhan hanfodol o'r broses hon yw cynnwys plant yn y gwaith o ymchwilio eu cyfleoedd lleol i chwarae a datblygu ymatebion i ddiogelu a gwella'r rhain pan fo angen. Wrth wneud hyn, mae'r Tîm Datblygu Chwarae wedi datblygu gwybodaeth a thystiolaeth sylweddol o ran sut y gall lleoedd gwag, cyfleusterau a gwasanaethau gael eu dylunio i gefnogi ymddygiad chwareus plant a phobl ifanc.

### Ysgolion Iach Wrecsam

Uned 21 Ystâd Ddiwydiannol Whitegate, Ffordd Clwydwen, Wrecsam, LL13 8UG

Ebost: healthyschools@wrexham.gov.uk

Mae tîm Ysgolion Iach Wrecsam yn helpu pob ysgol yn Wrecsam i weithredu Fframwaith Cynllun Ysgolion Iach Llywodraeth Cymru. O fewn y fframwaith, mae cyfranogiad disgyblion yn thema drawsbynciol y mae'n rhaid i ysgolion ei harddangos ar draws yr holl feysydd iechyd. Fel rhan o waith y timau, maen nhw'n yn helpu ysgolion i ddatblygu polisïau sy'n canolbwyntio ar blant a phobl ifanc ac yn sicrhau bod llais y disgybl yn cael ei ystyried ar draws pob maes dysgu. Hefyd, mae'r tîm yn helpu pob ysgol gynradd i ddarparu Cyngor Ysgol effeithiol ac o safon yn unol â chanllaw Llywodraeth Cymru. Cynhyrchwyd dogfen 'Datblygu Cyngor Ysgol Cynradd' i ysgolion a darperir hyfforddiant blynyddol i ysgolion ar y ddogfen hon. Mae cynghorau ysgol cynradd yn cael eu harchwilio i sicrhau eu bod yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru yn gywir ac mae adroddiad gwerthuso yn cael ei gynhyrchu i'r ysgol yn dilyn ymweliad sydd yn amlygu'r arferion da a'r argymhellion i wella.

### Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Wrecsam

Uned 21 Ystâd Ddiwydiannol Whitegate, Ffordd Clwydwen, Wrecsam, LL13 8UG

Ebost: youthjusticeservice@wrexham.gov.uk

Ffôn: 01978 298739

Mae Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Wrecsam yn gweithio gyda phobl ifanc sydd wedi dod i gysylltiad â'r System Cyfiawnder Troseddol a allai fod â phrofiad cyfyngedig o gyfranogi a disgwyliadau isel ynghylch eu gallu i ddylanwadu ar bethau a chael llais.

Maen nhw'n gweithio'n adeiladol ac yn caniatáu i'r bobl ifanc y maen nhw'n gweithio gyda nhw i gael cyfle i ymgysylltu â'u hapwyntiadau, gan roi llais iddyn nhw ac ystyried eu safbwyntiau er mwyn siapio'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid y maen nhw'n yn ei dderbyn.

### Sefydliadau Trydydd Sector

Mae amrywiaeth o Sefydliadau Trydydd Sector sy'n cynnig Gwasanaethau Cyfranogiad i'w gweld ar wefan Dewis.

### Gwefannau lleol defnyddiol eraill

- Llwyfan ymgynghori ac ymgysylltu Wrecsam
- Gwefan ryngweithiol i bobl ifanc yn Wrecsam

## Atodiad 2 - Cynllun Gweithredu - Strategaeth Gyfranogi Plant a Phobl Ifanc: Sut i gael llais a chlust yn Wrecsam

### Nod 1 - Parchu a hyrwyddo hawliau plant

**Eglurhad o'r Nod:** Helpu plant a phobl ifanc i ddeall eu hawliau a sut y gellir eu grymuso i wneud penderfyniad cytbwys.

Enghreifftiau

- Darparu gwybodaeth sy'n hawdd ei deall, o ansawdd dda sy'n glir ac yn hygyrch

**Sgôr Coch/Oren/Gwyrdd Dechreuol:** (I'w gwblhau)

**Gosod nodau SMART** (Penodol, Mesuradwy, Posibl, Realistig ac o fewn Amser)
**Sut ydych chi'n mynd i gyflawni hyn?** (I'w gwblhau)

**Pwy sy'n arwain:** (I'w gwblhau)

**Erbyn Pryd:** (I'w gwblhau)

**Nod 2 - Parchu a Gwerthfawrogi Amrywiaeth**

**Eglurhad o'r Nod:** Darparu ystod o gyfleoedd a chefnogaeth i ddiwallu anghenion pob plentyn a pherson ifanc.

**Enghreifftiau**

- Cyfleoedd i ddileu rhwystrau iaith/cyfathrebu neu heriau cael gafael ar ddarpariaeth ar gyfer grwpiau cymdeithasol sydd wedi'u heithrio, sydd ar y cyrion neu sydd dan anfantais, gellir gwneud hyn drwy sicrhau bod darpariaeth yn ddiwylliannol briodol, bod gwybodaeth yn glir a hygyrch a bod cynrychiolaeth yn y gweithlu.
- Gallai hyn gynnwys sicrhau bod asesiadau o'r effaith ar hawliau plant yn cael eu cwblhau ar gyfer pob polisi a phrosiect allweddol a bod gwaith allgymorth rheolaidd yn cael ei wneud i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc o grwpiau cymdeithasol sydd wedi'u heithrio, sydd ar y cyrion neu sydd dan anfantais.
- E.e. trwy ddiwrnodau agored/ymgysylltu mewn digwyddiadau i leiafrifoedd ethnig neu grwpiau cymunedol/sefydliadau partneriaeth y trydydd sector (e.e. grwpiau ffydd, canolbwyntiau diwylliannol (mosgiau), Cyngor Ffoaduriaid Cymru, y Groes Goch Brydeinig, Tros Gynnal Plant Cymru, Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru, Cymdeithas Merched Duon Step Out).
- Darparu hyfforddiant i staff ar hawliau plant, cydraddoldeb ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol. E.e. Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru, Diverse Cymru, Cyngor Hil Cymru, Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru (NWREN), Hyfforddiant troseddau casineb - Race Equality First, lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsrywiol, cwiar/yn cwestiynu, a hunan-ddiffiniadau eraill ac Ymwybyddiaeth o Anabledd.
- Cynyddu ymgysylltiad gan fudd-ddeiliaid o grwpiau cymdeithasol sydd wedi'u heithrio, sydd ar y cyrion neu sydd dan anfantais, fel bod cynrychiolaeth ehangach i fynd i'r afael â materion allweddol fel cynrychiolaeth anghyfrannol, gwahaniaethu a thangynrychiolaeth

**Sgôr Coch/Oren/Gwyrdd Dechreuol:** (I'w gwblhau)

**Gosod nodau SMART** (Penodol, Mesuradwy, Posibl, Realistig ac o fewn Amser)
**Sut ydych chi'n mynd i gyflawni hyn?**

(I'w gwblhau)

**Pwy sy'n arwain:** (I'w gwblhau)

**Erbyn Pryd:** (I'w gwblhau)

**Nod 3 - Gwrando ac ymateb i farn a dymuniadau plant**

**Eglurhad o'r Nod:** Helpu plant a phobl ifanc i fynegi eu barn yn rhwydd a chymryd eu sylwadau o ddifrif wrth wneud penderfyniadau neu gymryd camau sy'n effeithio ar eu bywydau yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

Enghreifftiau

- Sicrhau bod Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant yn cael eu cynnal ar gyfer pob prosiect / polisi allweddol i asesu'r effaith ar blant a phobl ifanc a'u hawliau.
- Cynnwys plant a phobl ifanc yn uniongyrchol yn y broses o ddylunio, monitro a gwerthuso'r gwasanaethau maen nhw'n eu defnyddio.
- Gwrando ar blant a phobl ifanc, gwerthfawrogi a chymryd eu barn o ddifrif, defnyddio'r wybodaeth maen nhw'n ei rhoi i chi i ganfod bylchau a chyfleoedd
- Blaenoriaethu cyfranogiad plant trwy gydol y cylch comisiynu
- Cynnwys plant a phobl ifanc wrth recriwtio staff sydd â chyfrifoldebau sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc
- Sicrhau bod adnoddau'n cael eu nodi mewn cyllidebau i gefnogi cyfranogiad
- Mabwysiadu'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol a gwneud cais am y Nod Barcud

**Sgôr Coch/Oren/Gwyrdd Dechreuol:** (I'w gwblhau)

**Gosod nodau SMART** (Penodol, Mesuradwy, Posibl, Realistig ac o fewn Amser)
**Sut ydych chi'n mynd i gyflawni hyn?**

(I'w gwblhau)

**Pwy sy'n arwain:** (I'w gwblhau)

**Erbyn Pryd:** (I'w gwblhau)

**Nod 4 - Bod â dyheadau uchel ar gyfer plant a phobl ifanc**

**Eglurhad o'r Nod:** Mae gan blant a phobl ifanc hawl i ddysgu a bod ar eu gorau.

**Enghreifftiau**

- Hyrwyddo ac annog cyflawniad addysgol a darparu amrywiaeth eang o brofiadau i blant a phobl ifanc i wella eu datblygiad personol
- Gweithio gyda phlant a phobl ifanc mewn ffyrdd diogel, hwyliog a llawn mwynhad
- Manteisio ar yr hyn mae plant a phobl ifanc yn ei wybod a gwneud pethau sy'n meithrin eu hyder a'u sgiliau

**Sgôr Coch/Oren/Gwyrdd Dechreuol:** (I'w gwblhau)

**Gosod nodau SMART** (Penodol, Mesuradwy, Posibl, Realistig ac o fewn Amser)
**Sut ydych chi'n mynd i gyflawni hyn?**

(I'w gwblhau)

**Pwy sy'n arwain:** (I'w gwblhau)

**Erbyn Pryd:** (I'w gwblhau)

**Nod 5 - Dathlu cyflawniadau plant**

**Eglurhad o'r Nod:** Cydnabod a pharchu'r cyfraniad mawr y mae plant a phobl ifanc yn ei wneud i Wrecsam a sicrhau ein bod yn mynegi ein balchder bob cyfle posibl.

**Enghreifftiau**

- Achrediad trwy Agored Cymru, e.e. Sgiliau Byw'n Annibynnol, Sgiliau cyfweld ac ati
- Cynlluniau Gwobrau Gwirfoddoli er enghraifft: Cynllun Gwobrau Gwirfoddolwyr yn Ysbrydoli Wrecsam gyda Gwasanaeth Ieuenctid Wrecsam
- Digwyddiadau Gwobrau Cyflawniad er enghraifft: Y gwobrau cyflawniad ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal a'r Rhai sy'n Gadael Gofal

**Sgôr Coch/Oren/Gwyrdd Dechreuol:** (I'w gwblhau)

**Gosod nodau SMART** (Penodol, Mesuradwy, Posibl, Realistig ac o fewn Amser)
**Sut ydych chi'n mynd i gyflawni hyn?**

(I'w gwblhau)

**Pwy sy'n arwain:** (I'w gwblhau)

**Erbyn Pryd:** (I'w gwblhau)

# Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

## 9. Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

Mae asesiad o'r effaith ar hawliau plant yn adnodd i edrych ar bolisi, cyfraith neu benderfyniad ac yn ein galluogi i asesu ei effaith ar blant a phobl ifanc a'u hawliau. Mae'n eich galluogi i ragweld a monitro'r effaith, a'i osgoi neu ei leihau os bydd angen.

Mae'r model hwn yn cynnwys dau fath o asesiad - asesiad 'sgrinio' cychwynnol ac asesiad effaith llawn.

Gellir cwblhau'r **asesiad sgrinio cychwynnol** yn gyflym, yn seiliedig ar wybodaeth sydd ar gael yn hawdd. Mae'n ddadansoddiad rhagarweiniol o effaith y cynnig ar blant a gellir ei ddefnyddio i benderfynu os oes angen asesiad o effaith mwy cyflawn. Gall sgrinio o bosib hefyd fod yn ddigonol ynddo'i hun i sefydlu pa effaith y gallai cynnig ei gael ar hawliau plant.

**Mae'r asesiad effaith llawn** yn cynnwys wyth cam: adnabod; mapio; casglu; ymgynghori; dadansoddi; argymell; cyhoeddusrwydd; a monitro.

Dylid defnyddio Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn fel y cam cychwynnol bob tro ar gyfer asesu polisi neu benderfyniad ar ei effaith ar hawliau plant. Nid yw asesiadau o'r effaith ar hawliau plant yn derfynol ynddynt eu hunain - i fod yn ddefnyddiol ac yn effeithiol dylid cymryd eu canfyddiadau i ystyriaeth a gweithredu arnyn nhw mewn prosesau gwneud penderfyniadau a pholisïau.

## 10. Pam Fod Asesiadau o'r Effaith ar Blant yn Angenrheidiol?

Er bod asesiadau o effaith yn cael eu cyflawni ar gyfer grwpiau lleiafrifol eraill neu achosion eraill, credwn fod asesiadau o'r effaith ar blant yn arbennig o angenrheidiol am sawl rheswm. Mae hawliau a diddordebau plant yn aml yn cael eu hanghofio a'r union resymeg ar gyfer Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plant yw bod plant angen gwarchodaeth arbennig; er bod plant yn meddu ar hawliau dynol fel unrhyw fod dynol arall, mae angen mesurau ychwanegol i sicrhau eu mwynhad o'r hawliau hynny.

### Beth ddylid ei asesu?

- Penderfyniadau polisi - llunio polisi newydd neu ddiwygio polisi presennol;
- Gwneud penderfyniadau yn ymwneud â'r gyllideb;
- Newidiadau i brosesau trefnu a gweinyddu;
- Ymarfer presennol (fel gweithredu polisi) neu newidiadau mewn ymarfer;
- Penderfyniadau cynllunio

Byddai bron yn amhosib asesu pob penderfyniad polisi yn llawn ar ei effaith ar blant. Felly, cyn y gall y broses asesu ei hun gymryd lle, mae'n rhaid gwneud penderfyniad ynglŷn â'r hyn i'w asesu. Yn dibynnu ar rôl y person neu'r sefydliad sy'n cyflawni'r asesiad, gallent ddewis cyfyngu asesiadau i fathau penodol o gynnig.

Fel arall, efallai na fydd yr hyn sy'n cael ei asesu yn seiliedig ar natur y cynnig ond yn hytrach ar ei gynnwys neu ei destun. Unwaith y bydd hynny wedi'i benderfynu, dylai 'asesiadau sgrinio cychwynnol' gael eu gwneud a bydd y rhain yn pennu pa gynigion sy'n destun dadansoddiad o effaith llawn, ehangach.

## 11. Ar Ba Gam o'r Broses Ddylai Asesiad gael ei Wneud?

Mae'n amlwg y dylai asesiadau gael eu cyflawni mor gynnar â phosib yn y broses penderfynu neu wneud polisi. Mae'r model asesu hwn yn cynnwys dau lefel o asesiad: sgrinio cychwynnol ac asesiad llawn. Mae'r asesiad llawn yn dilyn proses wyth cam, er fod sgrinio cychwynnol yn dilyn proses debyg ond llai dwys:

- Cam 1: Adnabod (penderfynu beth i'w asesu);
- Cam 2: Mapio (disgrifio'r hyn sy'n cael ei gynnig, ei ganlyniadau a'i dargedau);
- Cam 3: Casglu (dod â gwybodaeth a thystiolaeth berthnasol ynghyd);
- Cam 4: Ymgynghori (gofyn i blant a phobl ifanc a budd-ddeiliaid am eu sylwadau);
- Cam 5: Dadansoddi (asesu'r cynnig ar ei effaith ar hawliau plant a phobl ifanc):
- Cam 6: Argymell (llunio casgliadau a gwneud argymhellion);
- Cam 7: Cyhoeddusrwydd (rhoi gwybod am ganlyniadau'r asesiad o effaith); a
- Cam 8: Monitro (monitro a gwerthuso effaith y cynnig).

## 12. Diffinio 'Plant a Phobl Ifanc'

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn gwarchod hawliau plant a phobl ifanc hyd at 18 oed ledled y byd. Yng Nghymru mae'n ffurfio sail llunio pob polisi i blant a phobl ifanc o 0 a 25 oed.

Wrth asesu effaith y cynnig ar blant a phobl ifanc bydd yn bwysig edrych ar yr effaith ar y rheiny o dan 18 oed yn ei gyfanrwydd, ond bydd hefyd yn hanfodol edrych a oes grŵp penodol o blant wedi'u heffeithio'n arbennig gan y cynnig. Wedi'r cyfan, nid yw plant yn grŵp unffurf.

Felly dylid ystyried a yw cynnig yn effeithio'n llwyr neu'n bennaf ar y canlynol:

- Plant o wahanol oedrannau;
- Plant gwrywaidd neu fenywaidd;
- Plant o gefndiroedd hiliol, ethnig neu ddiwylliannol gwahanol;
- Plant o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol gwahanol;
- Plant s'yn byw oddi cartref, er enghraifft, mewn gofal maeth neu breswyl; neu
- Plant ag anableddau

Yn wir, efallai bod grwpiau penodol o blant, fel plant sy'n derbyn gofal neu blant sydd ag anableddau, yn cael eu heffeithio'n arbennig neu'n anghymesur gan bolisïau neu ddeddfwriaeth yn rheolaidd. Os mai dyna'r achos, gall fod yn ddefnyddiol gofyn, fel rhan o'r broses, a ydyn nhw'n cael eu heffeithio'n benodol wrth asesu cynigion unigol.

## 13. Buddiannau Cystadleuol

Yn ystod yr asesiad, efallai y sylweddolir bod buddiannau cystadleuol; gallai'r gwrthdaro fod rhwng plentyn a grŵp arall, fel rhieni, darparwyr gwasanaeth neu weithwyr proffesiynol, neu rhwng grwpiau penodol o blant, o bosib mewn perthynas ag adnoddau. Os mai dyna'r achos, bydd yn bwysig cyflawni asesiad o effaith llawn ac edrych yn fanwl a yw buddion gorau rhai plant yn cael eu hyrwyddo dros eraill ac, os felly, a yw hynny'n cael ei wneud yn gymesurol ac am resymau cyfreithlon.

## 14. Effeithiau Negyddol/Niweidiol

Pan mae cynnig i'w weld yn cael effaith negyddol ar blant, neu ar grŵp penodol o blant, dylid ystyried i ba raddau. Dylid cymryd camau i ddileu effeithiau negyddol, a phan nad yw hynny'n bosib, dylai lluniwr y polisi nodi pam ei fod yn angenrheidiol parhau gyda'r polisi. Dylai lluniwr y polisi amlinellu'r cyfiawnhad ar gyfer y polisi er gwaethaf ei effaith niweidiol ar blant.

## 15. Hyrwyddo Hawliau Plant

Mae'n bwysig cofio nad bwriad asesiadau o'r effaith ar hawliau plant yw adnabod effeithiau andwyol neu negyddol ar blant bob tro - dylent hefyd gael eu cynnal gyda'r bwriad o hyrwyddo hawliau a buddiannau plant.

Mae asesiadau o effaith yn ffordd o fynd ati i chwilo am gyfleoedd i gefnogi hawliau plant gyda'r nod hirdymor o wreiddio eu hawliau yn y broses o penderfyniadau a pholisïau.

### Cwestiynau Allweddol

- Sut fath o effaith, yn uniongyrchol neu anuniongyrchol, yn bositif neu negyddol, y bydd neu y gall y cynnig ei gael ar hawliau plant a phobl ifanc?
- A fydd hawliau un grŵp o blant a phobl ifanc yn cael eu heffeithio fwy na rhai o grŵp arall o blant?
- Oes yna fuddiannau cystadleuol rhwng grwpiau o blant, neu rhwng plant a grwpiau eraill?
- Sut mae'r cynnig yn berthnasol i, yn hyrwyddo, yn cyfyngu neu'n mynd yn groes i ddarpariaethau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plant neu unrhyw gytundeb neu safon ryngwladol berthnasol arall?

# 16. Asesiad Sgrinio Cychwynnol

**Rhestr o Gwestiynau**

Wedi'i addasu o Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant - Asesiad Sgrinio Cychwynnol' wedi'i ddatblygu gan Gomisiynydd Plant a Phobl Ifanc Yr Alban

- Beth sy'n cael ei gynnig?
- Beth yw nod, amcan neu ddiben y cynnig?
- Pwy sy'n mynd i weithredu'r cynnig?
- Pa hawliau plant sy'n berthnasol?
- Ym mha ffyrdd y mae'r cynnig yn cefnogi neu'n peidio yn cefnogi hawliau'r plant?
- Pa grwpiau o blant a fydd yn cael eu heffeithio gan y cynnig?
- Effaith gadarnhaol ar Blant a Phobl Ifanc
- Effaith negyddol ar Blant a Phobl Ifanc
- Dim effaith ar Blant a Phobl Ifanc
- A gynhaliwyd ymgynghoriad wrth ddatblygu'r cynnig?
  Os na, pam ddim?
- Pa ganfyddiadau a gyrhaeddoch chi?
- Pa argymhellion ac/neu gamau gweithredu penodol y dylid eu dilyn, pwy fydd yn gyfrifol am wneud hynny a pwy y mae angen eu hysbysu amdanyn nhw?

## 17. Asesiad o Effaith Llawn

### Rhestr o Gwestiynau

Wedi'i addasu o Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant - Asesiad Sgrinio Cychwynnol' wedi'i ddatblygu gan Gomisiynydd Plant a Phobl Ifanc Yr Alban

### Adnabod

- Enw'r cynnig

### Mapio

- Beth sy'n cael ei gynnig?
- Beth yw nod, amcan neu ddiben y cynnig?
- Pwy gyflwynodd y cynnig?
- Pwy fydd yn gyfrifol am weithredu'r cynnig?
- Beth yw cyd-destun cyfreithiol, polisi ac ymarfer y cynnig?
- Pa rai o erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant (y Confensiwn) sy'n berthnasol?
- A gyflawnwyd dadansoddiad o'r Confensiwn wrth ddatblygu'r cynnig?
- Beth yw goblygiadau'r cynnig o ran adnoddau?

### Casglu (Dod â gwybodaeth a thystiolaeth berthnasol ynghyd)

- Pa wybodaeth neu dystiolaeth berthnasol sydd ar gael yn fewnol?
- Pa wybodaeth neu dystiolaeth berthnasol sydd ar gael yn allanol?
- Oes angen gwybodaeth neu dystiolaeth pellach?

### Ymgynghori (Gofyn i blant a phobl ifanc a budd-ddeiliaid ac arbenigwyr eraill am eu safbwyntiau)

- A ymgynghorwyd gyda phlant a phobl ifanc neu unrhyw fudd-ddeiliaid wrth ddatblygu'r cynnig?
- Oes angen ymgynghori, neu fyddai hynny'n briodol?
- Os yw'r ateb i'r uchod yn gadarnhaol pwy ddylid ymgynghori â nhw?
- Ddylem ni ymgynghori â grwpiau penodol o blant a phobl ifanc am eu sylwadau?
- Pa fformat y dylid ei ddefnyddio wrth ymgynghori?

- Ydych chi wedi ystyried y Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol ac wedi'u defnyddio nhw yn y gwaith hwn? (Gweler Atodiad 2 am wybodaeth bellach am y Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol).
- Pa gwestiynau y dylid eu gofyn?

**Dadansoddi (Asesu'r cynnig ar ei effaith ar hawliau plant a phobl ifanc)**

- Sut fath o effaith y bydd neu y gall y cynnig ei gael ar hawliau plant a phobl ifanc?
- A fydd hawliau un grŵp penodol o blant yn cael eu heffeithio? Ydi'r plant hyn wedi eu cynnwys o dan y nodweddion gwarchodedig yn ôl y diffiniad yn Neddf Cydraddoldeb 2010?
- Oes yna fuddiannau cystadleuol rhwng grwpiau o blant, neu rhwng plant a grwpiau eraill?
- Sut y mae'r cynnig yn berthnasol i, yn hyrwyddo, yn cyfyngu neu'n mynd yn groes i ddarpariaethau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plant neu unrhyw gytundeb neu safonau rhyngwladol perthnasol eraill, neu gyfraith ddomestig?
- Sut y mae'r cynnig yn cyfrannu at gyflawniad nodau cenedlaethol i blant a phobl ifanc?
- Oes yna anghytuno ynglŷn ag effaith tebygol y cynnig ar hawliau plant a phobl ifanc?
- Ai'r cynnig yw'r ffordd orau o gyflawni ei nodau, o ystyried hawliau plant?
- Ydi'r dewis 'peidio â gwneud dim byd' wedi cael ei ystyried?
- Oes modd awgrymu opsiynau eraill ar wahân i'r cynnig?
- Pa fesurau cydbwyso allai fod eu hangen i osgoi/lleihau effaith negyddol?
- Pa effaith cyffredinol fydd y cynnig yn ei gael er feysydd neu raglenni polisi eraill, neu ar weithwyr proffesiynol neu grwpiau eraill yn eu gwaith â phlant?

**Argymell (Llunio casgliadau a gwneud argymhellion)**

- Pa gasgliadau cyffredinol a luniwyd?
- Pa argymhellion y dylid eu gwneud?
- Pwy ddylai gael gwybod am yr argymhellion?
- Oes bylchau o ran gwybodaeth, casglu data neu arbenigedd yn yr asesiad?
- Oes angen gwaith ymchwil neu ymgynghoriad pellach?
- Oes yna unrhyw faterion perthnasol eraill?

**Cyhoeddusrwydd (Rhoi gwybod am ganlyniadau'r asesiad o effaith)**

- A ddylai'r asesiad fod ar gael i'r cyhoedd? Os na, pam ddim?
- Os felly, ym mha fformat?
- A ddylai unigolion neu grwpiau penodol gael gwybod am yr asesiad?
- Ydi'r asesiad a'r adborth ychwanegol wedi cael eu cyflwyno i'r rheini yr ymgynghorwyd â nhw yn ystod y broses asesu?

**Monitro (Monitro a gwerthuso effaith y cynnig)**

- Oes angen cynnal gwerthusiad/gwaith monitro dilynol ar y cynnig a'i weithrediad?
- A gafodd yr argymhellion a wnaed o ganlyniad i effaith yr asesiad eu hystyried neu weithredu?
- A ddylai cynnydd y cynnig gael ei fonitro?
- A ddylai gweithrediad y cynnig gael ei fonitro?
- Oes angen gwneud ymchwil i asesu effaith y cynnig ar blant ar ôl gael ei weithredu?
- O ganlyniad i fonitro'r cynnig, a oes angen argymhellion pellach?
- Pwy ddylai gael gwybod am yr argymhellion?
- Sut fyddwch chi'n cyfathrebu'r argymhellion i blant, gan gynnwys y plant hynny yr ymgynghorwyd â nhw? (Gweler Safon Cyfranogiad 6, Atodiad 2)

## Atodiad 1

### Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Mae'r fersiwn gryno hon o'r Confensiwn wedi cael ei addasu o daflen Unicef "Eich Hawliau o dan y CCUHP".

Er mwyn cynnal asesiad rydym yn argymell eich bod yn troi at â fersiwn llawn y Confensiwn, sydd ar gael gan y Pwyllgor ar wefan Unicef.

**Erthygl 1**

Mae gan bawb o dan 18 oed yr holl hawliau sydd yn y Confensiwn hwn.

**Erthygl 2**

Mae'r Confensiwn yn berthnasol i bawb beth bynnag fo'u hil, crefydd, gallu, beth bynnag y byddan nhw'n ei ddweud neu ei feddwl, waeth pa fath o deulu y byddan nhw wedi'i fagu ynddo.

**Erthygl 3**

Dylai bob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio tuag at yr hyn sydd orau iddyn nhw.

**Erthygl 4**

Dylai llywodraethau ofalu bod yr hawliau hyn ar gael i bob plentyn.

**Erthygl 5**

Dylai llywodraethau barchu hawliau a chyfrifoldebau teuluoedd i gyfeirio neu arwain eu plant fel eu bod nhw'n dysgu defnyddio eu hawliau'n briodol wrth iddyn nhw dyfu.

**Erthygl 6**

Mae gan blant yr hawl i fyw. Dylai Llywodraethau sicrhau fod plant yn goroesi ac yn datblygu i fod yn iach.

**Erthygl 7**

Mae gan blant yr hawl i enw a gofrestrwyd yn gyfreithiol ac i genedligrwydd. Mae gan blant yr hawl i adnabod eu rhieni a, cyn belled ag y mae'n bosib, derbyn gofal ganddynt.

**Erthygl 8**

Dylai llywodraethau barchu hawl plentyn i enw, cenedligrwydd a chysylltiadau teuluol.

**Erthygl 9**

Ni ddylid gwahanu plant oddi wrth eu rhieni oni bai fod hynny er lles y plant- er enghraifft, os ydi rhiant yn cam-drin neu'n esgeuluso eu plentyn. Os ydi'r rhieni wedi gwahanu, mae gan blant yr hawl i gadw mewn cysylltiad â'r ddau riant, oni allai hynny achosi niwed iddyn nhw.

**Erthygl 10**

Dylai teuluoedd sy'n byw mewn gwahanol wledydd fod â'r hawl i symud rhwng y gwledydd hynny fel bod y rhieni a'r plant yn gallu cadw mewn cysylltiad neu ddod yn ôl at ei gilydd fel teulu.

**Erthygl 11**

Dylai Llywodraethau gymryd camau i atal plant rhag cael eu tynnu allan o'u eu hunain yn anghyfreithlon.

**Erthygl 12**

Mae gan blant hawl i ddweud eu barn ar yr hyn ddylai ddigwydd pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, ac i'w barn gael ei hystyried.

**Erthygl 13**

Mae gan blant yr hawl i gael a rhannu, gwybodaeth cyn belled â nad yw'r wybodaeth yn niweidiol iddyn nhw nac eraill.

**Erthygl 14**

Mae gan blant yr hawl i feddwl a chredu'r hyn y maen nhw eisiau ac i ddilyn crefydd o'u dewis, cyn belled ag nad ydynt yn atal pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau. Dylai rhieni arwain eu plant ar y materion hyn.

**Erthygl 15**

Mae gan blant yr hawl i gwrdd â phlant a phobl ifanc eraill ac i ymuno â grwpiau a sefydliadau, cyn belled ag nad yw hynny'n atal pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau.

**Erthygl 16**

Mae gan blant yr hawl i breifatrwydd. Dylai'r gyfraith eu hamddiffyn nhw rhag ymosodiadau ar eu ffordd o fyw, eu henw da, eu teulu a'u cartref.

**Erthygl 17**

Mae gan blant yr hawl i wybodaeth ddibynadwy gan y cyfryngau torfol. Dylai teledu, radio a phapurau newydd ddarparu gwybodaeth sy'n ddealladwy iddyn nhw ac ni ddylen nhw hyrwyddo deunyddiau allai niweidio plant.

**Erthygl 18**

Mae'r ddau riant yn rhannu cyfrifoldeb dros fagu eu plant, ac fe ddylen nhw ystyried beth sydd orau i bob plentyn bob amser. Dylai llywodraethau helpu rhieni drwy ddarparu gwasanaethau i'w cefnogi nhw, yn enwedig os yw'r ddau riant yn gweithio.

**Erthygl 19**

Dylai Llywodraethau sicrhau fod plant yn cael gofal priodol, a'u hamddiffyn nhw rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod gan eu rhieni neu unrhyw un arall sy'n edrych ar eu holau.

**Erthygl 20**

Os na all eu teulu edrych ar ôl plentyn, mae'n rhaid iddyn nhw dderbyn gofal priodol gan bobl sy'n parchu eu crefydd, eu diwylliant a'u hiaith.

**Erthygl 21**

Os bydd plentyn yn cael ei fabwysiadu, yr ystyriaeth gyntaf yw'r hyn sydd orau iddyn nhw. Mae'r un rheolau yn berthnasol pan fydd plentyn yn cael ei fabwysiadu yn y wlad lle mae'r cafodd ei eni neu'n mynd i fyw i wlad arall.

**Erthygl 22**

Dylai plant sydd wedi dod i'r wlad fel ffoaduriaid fod â'r un hawliau â phlant sydd wedi cael eu geni yn y wlad honno.

**Erthygl 23**

Dylai plant gydag anabledd dderbyn gofal a chymorth arabenigol fel eu bod nhw'n gallu byw bywyd llawn ac annibynnol.

**Erthygl 24**

Mae gan blant yr hawl i ofal iechyd o safon dda ac i ddŵr glân, bwyd maethlon ac amgylchedd glân fel eu bod nhw'n gallu cadw'n iach. Dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn.

**Erthygl 25**

Dylai sefyllfa plant sy'n derbyn gofal gan eu hawdurdod lleol yn hytrach na'u rhieni gael ei hadolygu yn rheolaidd.

**Erthygl 26**

Dylai'r llywodraeth ddarparu arian ychwanegol i blant teuluoedd mewn angen.

### Erthygl 27

Mae gan blant yr hawl i fyw bywyd o safon sy'n ddigon da i ddiwallu eu hanghenion corfforol a meddyliol. Dylai'r llywodraeth helpu teuluoedd sy'n methu fforddio darparu hyn.

### Erthygl 28

Mae gan blant yr hawl i addysg. Dylai disgyblaeth mewn ysgolion barchu urddas dynol plant. Dylai addysg gynradd fod am ddim. Dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn.

### Erthygl 29

Dylai addysg ddatblygu personoliaeth a thalentau plentyn yn llawn. Dylai eu hannog nhw i barchu eu rhieni, eu diwylliant eu hunain a diwylliant eraill.

### Erthygl 30

Mae gan blant yr hawl i ddysgu a defnyddio iaith ac arferion eu teulu p'un ai yw'r rhain yn cael eu rhannu gan fwyafrif y bobl yn y wlad lle maen nhw'n ai peidio.

### Erthygl 31

Mae gan blant yr hawl i ymlacio, chwarae ac ymuno mewn ystod eang o weithgareddau.

### Erthygl 32

Dylai'r llywodraeth amddiffyn plant rhag gwaith sy'n beryglus neu a allai amharu ar eu hiechyd neu addysg.

### Erthygl 33

Dylai'r llywodraeth ddarparu ffyrdd o amddiffyn plant rhag cyffuriau peryglus.

### Erthygl 34

Dylai'r llywodraeth amddiffyn plant rhag cael eu cam-drin yn rhywiol.

### Erthygl 35

Dylai'r llywodraeth sicrhau na chaiff plant eu herwgipio neu werthu.

### Erthygl 36

Dylai plant gael eu hamddiffyn rhag unrhyw weithgareddau all niweidio eu datblygiad.

**Erthygl 37**

Os bydd plentyn yn torri'r gyfraith ni ddylen nhw gael eu trin gyda chreulondeb. Ni ddylen nhw gael eu rhoi mewn carchar gydag oedolion ac fe ddylen nhw allu cadw mewn cysylltiad â'u teulu.

**Erthygl 38**

Ni ddylai llywodraethau ganiatáu i blant o dan 16 oed ymuno â'r fyddin. Mewn ardaloedd lle mae rhyfel fe ddylai plant dderbyn amddiffyniad arbennig.

**Erthygl 39**

Dylai plant sydd wedi cael eu hesgeuluso neu eu cam-drin dderbyn cymorth arbennig i adfer eu hunan-barch.

**Erthygl 40**

Dylai plant sy'n cael eu cyhuddo o dorri'r gyfraith dderbyn cymorth cyfreithiol. Dylid defnyddio dedfryd o garchar i blant ar gyfer y troseddau mwyaf difrifol yn unig.

**Erthygl 41**

Os ydi cyfreithiau gwlad benodol yn amddiffyn plant yn well nag erthyglau'r Confensiwn yna dylai'r cyfreithiau hynny gael eu gweithredu.

**Erthygl 42**

Dylai'r llywodraeth roi gwybod i bob rhiant a phlentyn am y Confensiwn.

**Erthyglau 43-54**

Mae'r erthyglau hyn yn ymwneud â sut y dylai llywodraethau ac oedolion gydweithio i wneud yn siŵr bod pob plentyn yn cael mwynhau eu holl hawliau.

# Atodiad 2

### Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc

### Gwybodaeth

- Mae hyn yn golygu bod gennych chi hawl i gael gwybodaeth sy'n hawdd ei deall ac sy'n caniatáu i chi wneud penderfyniad cytbwys.
- Byddwn ni'n darparu gwybodaeth o ansawdd da, sy'n glir ac yn hygyrch.
- Byddwn ni'n rhoi gwybod i chi pwy sy'n mynd i wrando a rhoi gwybod i chi pa wahaniaeth y gallai eich cyfranogiad chi ei wneud.

### Chi biau'r dewis

- Mae hyn yn golygu bod gennych chi hawl i ddewis cymryd rhan a gweithio ar bethau sy'n bwysig i chi.
- Byddwn ni'n rhoi digon o gefnogaeth ac amser i chi ddewis a ydych chi eisiau cymryd rhan.

### Dim Gwahaniaethu

- Mae hyn yn golygu bod plant a phobl ifanc i gyd yn wahanol ac mae ganddyn nhw hawl i gael eu trin yn deg.
- Byddwn ni'n herio gwahaniaethu.
- Byddwn ni'n rhoi amrywiaeth o gyfleoedd a chefnogaeth i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc.

### Parch

- Mae hyn yn golygu bod gennych chi hawl i ddweud eich dweud. Mae eich barn chi'n bwysig a bydd yn cael ei pharchu.
- Byddwn ni'n gwrando ar eich barn, eich profiadau a'ch syniadau ac yn eich cymryd o ddifrif.
- Byddwn ni'n gweithio gyda chi ar bethau rydych chi'n credu sy'n bwysig.
- Byddwn ni'n gwerthfawrogi'r hyn sydd gennych chi i'w gynnig.

### Bod ar eich ennill

- Mae hyn yn golygu bod gennych chi hawl i ddysgu a bod y gorau y gallwch chi fod. Byddwch chi'n cael cyfleoedd i weithio gydag eraill a gwneud gwahaniaeth. Rydym ni eisiau i chi fod yn rhan o brofiadau cadarnhaol.
- Byddwn ni'n gweithio gyda chi mewn ffyrdd diogel, hwyliog a phleserus.
- Byddwn ni'n manteisio i'r eithaf ar yr hyn rydych chi'n ei wybod ac yn gwneud pethau sy'n meithrin eich hyder a'ch sgiliau.

### Adborth

- Mae hyn yn golygu bod gennych chi hawl i wybod pa wahaniaeth rydych wedi'i wneud a sut y gwrandawyd ar eich syniadau.
- Byddwn ni bob amser yn sicrhau eich bod chi'n cael adborth o fewn amser a gytunwyd.
- Byddwn ni'n dweud wrthych chi sut cafodd eich syniadau chi eu defnyddio a pham.
- Byddwn ni'n dweud wrthych chi beth fydd yn digwydd nesaf.

### Gweithio'n well drosoch chi

- Mae hyn yn golygu y dylai'r bobl sy'n gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc sicrhau bod hawliau plant yn ganolog i bopeth y maen nhw'n ei wneud.
- Byddwn ni'n gweithio gyda chi ac yn dysgu sut y gallwn ni wneud pethau'n well.
- Byddwn ni'n sicrhau bod eich barn chi'n gwneud gwahaniaeth i'r ffordd rydym ni'n gwneud cynlluniau a phenderfyniadau

# Proses y Siarter Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol a’r Nod Barcud

## 18. Proses y Siarter Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol a'r Nod Barcud

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i gofrestru ar gyfer y Siarter, [Cafodd hyn ei gwblhau a dyrannwyd y Siarter ym mis Mawrth 2024]**

Mae hwn yn ddatganiad o fwriad bod sefydliadau yn gweithio yn unol â'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol

Wrth wraidd y Siarter mae tri philer Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn: Diogelu, Darpariaeth a Chyfranogiad

Er mwyn cofrestru ar gyfer y Siarter mae gofyn i chi gwblhau holiadur byr

Mae hwn yn para am uchafswm o 2 flynedd, ac mae angen ail-ymgeisio amdano os na chyflawnir y Nod Barcud o fewn y terfyn amser.

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i wneud cais am y Nod Barcud**

Mae angen gwneud hyn o fewn 2 flynedd i gofrestru ar gyfer y Siarter.

I wneud cais ar gyfer y Nod Barcud mae'n rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ddarparu 3 darn o dystiolaeth ar gyfer pob un o'r 7 safon ar draws adrannau o fewn y sefydliad dros y 12 mis diwethaf. (Nid oes rhaid i bob adran ddangos tystiolaeth o bob safon).

I gael y Nod Barcud bydd y dystiolaeth hon yn cael ei harolygu gan yr arolygwyr ifanc a'i graddio fel a ganlyn:

- Bwriadu – rydych chi wedi nodi maes sydd angen ei wella
- Datblygu – rydych chi wrthi'n gweithio tuag at wella'r maes a nodwyd
- Cyflawni – rydych chi wedi cyflawni neu yn cyflawni yn y maes hwn.

Os nad ydych chi'n cyflawni yna rhoddir argymhellion i chi.

Unwaith y byddwch yn cyflawni, bydd bwrdd yr arolygwyr ifanc yn cyflwyno'r adroddiadau y sicrhawyd eu hansawdd i Lywodraeth Cymru i gael eu cymeradwyo gan un o Weinidogion Llywodraeth Cymru.

Yna caiff y Nod Barcud Cenedlaethol ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Bydd gwasanaethau sydd wedi dangos eu bod yn cyflawni yn erbyn pob un o'r saith Safon Genedlaethol yn derbyn tystysgrif (a fydd yn ddilys am 4 blynedd).

Ar ôl 4 blynedd o gyflawni'r Nod Barcud, mae'n rhaid ailadrodd y broses hon.

# Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc

## 19. Siarter

Ar ran y sefydliad, mae'r bobl sydd wedi llofnodi isod yn cytuno i'r canlynol:

- **Cyfranogiad** - Fel sefydliad, byddwn ni'n hyrwyddo ac yn codi ymwybyddiaeth o'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol fel rhan o'n hymrwymiad i ddarparu profiad o safon i bobl ifanc.
- **Amddiffyn** - Fel sefydliad, byddwn ni'n sicrhau ein bod ni'n gweithio mewn ffordd ddiogel a phleserus gyda phobl ifanc yn unol â deddfwriaeth ac arferion recriwtio diogel.
- **Darpariaeth** - Fel sefydliad, rydym ni wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o safon sy'n cael ei lywio gan farn pobl ifanc ac sy'n adlewyrchu eu hanghenion.

Prif gyswllt ar ran y sefydliad: Caroline Bennett

Llofnod yr unigolyn/unigolion ifanc: (I'w gwblhau)

Llofnod Prif Swyddog Gweithredol Plant yng Nghymru: (I'w gwblhau)

Enw'r Sefydliad: Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Dyddiad: Mawrth 2024

# Safonau Cyfranogiad

## 20. Ffurflen Hunanasesu Safonau Cyfranogiad

### Rhestr o Gwestiynau

- Enw
- Sefydliad
- Rhesymau dros ymgeisio am y Nod Barcud
- Sut mae'r gwasanaeth yn darparu gwybodaeth sydd o ansawdd da, yn glir ac yn hygyrch?
- Sut mae'r gwasanaeth yn rhoi gwybod i bobl ifanc am pwy sy'n mynd i wrando a pha wahaniaeth y gallai eu cyfranogiad nhw ei wneud?

### Chi biau'r dewis

Mae gan bobl ifanc yr hawl i ddewis cymryd rhan a gweithio ar bethau sy'n bwysig iddyn nhw.

- Ydy'r gwasanaeth yn rhoi digon o gefnogaeth ac amser i bobl ifanc ddewis a ydyn nhw eisiau cymryd rhan?

### Dim gwahaniaethu

Mae plant a phobl ifanc i gyd yn wahanol ac mae ganddyn nhw'r hawl i gael eu trin yn deg.

- Sut mae'r gwasanaeth yn herio gwahaniaethu?
- Sut mae'r gwasanaeth yn darparu amrediad o gyfleoedd a chefnogaeth i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc?

### Parch

Mae gan bobl ifanc yr hawl i leisio eu barn. Mae eich safbwyntiau'n bwysig a byddan nhw'n cael eu parchu.

- Sut mae'r gwasanaeth yn gwrando ar farn, profiadau a syniadau pobl ifanc ac yn eu cymryd o ddifrif?
- Sut mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda phobl ifanc ar bethau maen nhw'n dweud eu bod yn bwysig?
- Sut mae'r gwasanaeth yn gwerthfawrogi beth sydd gan bobl ifanc i'w gynnig?

### Bod ar eich ennill

Mae gan bobl ifanc yr hawl i ddysgu a bod y gorau y gallan nhw fod. Mae gan bobl ifanc gyfleoedd i weithio gydag eraill a gwneud gwahaniaeth.

- Sut mae'r gwasanaeth yn gweithio'n ddiogel gyda phobl ifanc mewn dulliau diogel, hwyliog a phleserus?
- Sut mae'r gwasanaeth yn manteisio i'r eithaf ar beth mae pobl ifanc yn ei wybod, ac yn gwneud pethau i feithrin eu hyder a'u sgiliau?

### Adborth

Mae gan bobl ifanc yr hawl i wybod pa wahaniaethau maen nhw wedi eu gwneud a sut mae rhywun wedi gwrando ar eu syniadau.

- Sut mae'r gwasanaeth bob amser yn sicrhau bod pobl ifanc yn cael adborth o fewn cyfnod a gytunwyd?
- Sut mae'r gwasanaeth yn dweud wrth bobl ifanc am y ffyrdd mae eu syniadau wedi cael eu defnyddio a pham?
- Sut mae'r gwasanaeth yn dweud wrth bobl ifanc beth sy'n digwydd nesaf?

### Gweithio'n well drosoch chi

Dylai'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc roi hawliau plant yn ganolog i bopeth maen nhw'n ei wneud.

- Sut mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda phobl ifanc ac yn dysgu sut mae gwneud pethau'n well?
- Sut mae'r gwasanaeth yn sicrhau bod barn pobl ifanc yn gwneud gwahaniaeth i'r ffordd mae cynlluniau a phenderfyniadau'n cael eu gwneud?